

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.9 Newid hinsawdd ac iechyd



Iechyd, newid yn yr hinsawdd a thlodi

Mae'r Adran Iechyd yn nodi nifer o effeithiau negyddol ar iechyd sy'n debygol o ddwysau gyda newid yn yr hinsawdd. Mae pobl sy'n byw mewn tldi ac sydd eisoes yn dioddef iechyd gwael yn fwy agored i'r holl effeithiau hyn, sy'n cynnwys:

- Bydd marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yn cynyddu a gall olygu cynnydd o tua 2800 o achosion y flwyddyn
- Mae achosion o wenwyn bwyd yn debygol o gynyddu'n sylweddol, a hynny o tua 10,000 o achosion y flwyddyn yn y DU
- Bydd problemau sy'n gysylltiedig â phryfed, megis clefydau dolur rhydd sy'n cael eu lledaenu gan bryfed, yn cynyddu.
- Mae'n bosibl y gwelir cynnydd o tua 5000 y flwyddyn yn nifer yr achosion o ganser y croen a chynnydd o 2000 y flwyddyn yn yr achosion o gataract yn y DU erbyn 2050.
- Mae anafiadau, clefydau heintus, pryder ac iselder i gyd yn gysylltiedig â llifogydd difrifol, ac mae'r rhain yn debygol o gynyddu.
- Bydd alergeddau resbiradol yn cynyddu o ganlyniad i gynnydd yn nhyfiant llwydni mewn tai, a achosir gan aeafau mwy llaith.

Mae effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd ar iechyd pobl yn fwy arwyddocaol fyth i'r sawl sy'n byw mewn tldi. Mae'r rhai ar y bandiau incwm isaf eisoes yn profi mwy o salwch o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys cyflogau isel, straen galwedigaethol, diweithdra, tai o safon annigonol, maeth gwael, diffyg addysg, mynediad annigonol at ofal iechyd, trafnidiaeth a siopau, diffyg cyfleusterau hamdden, ac amlygiad i lygredd yn yr aer. Mae hyn yn golygu bod y tlotaf mewn cymdeithas yn cael eu hamlygu fwy o effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd ar iechyd.

Mae llawer o adroddiadau sy'n amlinellu'r effeithiau a gaiff newid yn yr hinsawdd ar iechyd pobl ledled y byd. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan gyrff fel Adolygiad Marmot 2010 i anghydraddoldebau iechyd ac Adroddiad Dyngarol Byd-eang 2009 yn tynnu sylw at effeithiau sylweddol newid yn yr hinsawdd ar faterion megis iechyd a lles, yn enwedig i bobl agored i niwed. Am ragor o wybodaeth, darllenwch:

Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

Mae WHO/Ewrop yn gweithio i ganfod opsiynau polisi a fyddai'n helpu i atal, i baratoi ar gyfer ac ymateb i effeithiau'r newidiadau hyn ar iechyd, ac mae'n cynorthwyo Aelod

Wladwriaethau i ddewis a gweithredu'r strategaethau mwyaf addas. Nod eu cyhoeddiad Protecting health in an environment challenged by climate change: European Regional Framework for Action yw atal a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd drwy gryfhau systemau iechyd, eu helpu i addasu, a meithrin galluoedd sefydliadau.

www.who.int/globalchange/publications/9789241598187/en/index.html

The Lancet a Chomisiwn Iechyd Sefydliad Byd-eang Coleg Prifysgol Llundain - Managing the health effects of climate change

Cydweithrediad rhwng The Lancet a Choleg Prifysgol Llundain, a arweiniodd at adroddiad Comisiwn cyntaf UCL Lancet, sy'n amlinellu sut y gallai newid yn yr hinsawdd dros y degawdau nesaf gael effaith drychinebus ar iechyd yn fyd-eang. Mae'r adroddiad yn edrych ar fesurau ymarferol y gellid eu cymryd yn awr ac yn y tymor byr a chanolig i reoli ei effeithiau.

www.ucl.ac.uk/global-health/ucl-lancet-climate-change.pdf

Sefydliad Joseph Rowntree: The social justice implications of climate change in the UK

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi datblygu ymatebion cymdeithasol cyfiawn i newid yn yr hinsawdd yn y DU. Mae'r rhai sy'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cynnwys pobl sy'n dioddef afiechyd a symudedd cyfyngedig. Mae'r rhaglen yn edrych ar y materion hyn o sawl safbwynt gwahanol, gan gynnwys [Vulnerability to heatwaves and drought: adaptation to climate change](#)

www.jrf.org.uk/work/workarea/climate-change-and-social-justice

Mae Llywodraeth Cymru yn fwyaf arbennig wedi cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn fater trawsbynciol a bod iechyd yn un o'r meysydd lle mae effaith newid yn yr hinsawdd wedi'i gydnabod.

Mae **Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu** yn amlinellu'r polisiau a'r rhaglenni penodol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweithredu wrth gyflawni'r Fframwaith Ymaddasu. Iechyd yw un o'r prif gategoriâu

www.assemblywales.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/gen-ld8256-e.pdf?langoption=3&ttl=GEN-LD8256%20-%20Climate%20Change%20Strategy%20for%20Wales%20-%20Adaptation%20Delivery%20Plan

Mae adroddiad **Gweithgor Newid Hinsawdd ac Iechyd Llywodraeth Cymru** yn tynnu sylw ar rai o brif effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y sector iechyd.

<http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/climate/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Tywydd Poeth i Gymru 2009: Fframwaith ar gyfer Paratoi ac Ymateb Mae'r cynllun hwn yn amlinellu trefniadau i hysbysu asiantaethau iechyd, cymdeithasol a gofal eraill priodol a'r cyhoedd (yn enwedig grwpiau agored i niwed) o beryglon gwres gormodol.

<http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/heatwave/?skip=1&lang=cy>

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o daflenni ar gyfer gwahanol grwpiau (gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a chynghor i staff cartrefi gofal) am yr hyn y dylent ei wneud mewn cyfnod o dywydd poeth.

<http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/professionals1/?skip=1&lang=cy>

Erthygl gan yr **Asiantaeth Diogelu Iechyd** sy'n dangos y cysylltiadau rhwng Newid yn yr Hinsawdd ac iechyd o safbwynt iechyd.

www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_080702

Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn awr yn edrych ar effeithiau newid yn yr hinsawdd ar eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Swydd Hertford wedi edrych ar wasanaethau'r Cynghor Sir a'r GIG yn y sir gyda'i gilydd. Cewch ragor o wybodaeth yn:

www.hertsdirect.org/infobase/docs/pdfstore/nhsacsstudy1.pdf

Mae **The Carbon Addict** yn wefan ysgafn ar ffurf cartŵn sy'n nodi symptomau, ymddygiad, diagnosis a rheolaeth 'syndrom dibyniaeth ar garbon' – h.y. canlyniadau a chymhlethdodau byw bywyd carbon uchel. Mae'r wefan wedi'i thargedu at weithwyr iechyd proffesiynol ac mae wedi'i hysgrifennu mewn iaith a fydd yn gyfarwydd iddynt. Ei nod yw cael pobl i feddwl am y cysylltiadau rhwng iechyd a newid yn yr hinsawdd a'u cyfeirio at dystiolaeth sy'n ategu'r cysylltiadau. Yn fwy cyffredinol, mae'n ymdrech i annog myfyrwyr a chlinigwyr i ddefnyddio'r wybodaeth mewn practis clinigol, i neilltuo mwy o amser i helpu cleifion i newid eu ffordd o fyw a fydd yn llesol i'w hiechyd ac i'r amgylchedd.

www.carbonaddict.org

Fodd bynnag, mae angen i amrediad llawer ehangach o sefydliadau fod yn rhan o'r gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan ddefnyddio'u sgiliau i ddylanwadu ar bolisi a manteisio ar awdurdod eu staff, eu buddiolwyr a'u cefnogwyr.

Y Trydydd Sector

Darllenwch am waith **Cyfeillion yr Henoed, RNIB, Y Groes Goch Brydeinig ac Equinox** fel rhan o Big Project NCVO sy'n edrych ar yr effeithiau ar iechyd y buddiolwyr a gynorthwyr ganddynt:

www.ncvo-vol.org.uk/thebigresponse

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio ar draul cyngor proffesiynol ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion a all ddeillio o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio gweithredu arni.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 16/03/2012



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk